# Archwilio dichonoldeb creu astudiaeth hydredol i Gymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Research Summary | Social research | Number: 75/2013

## Crynodeb Gweithredol


### *Cefndir*

Caiff yr adroddiad hwn ei gyflwyno fel rhan o raglen Llywodraeth Cymru i Wneud y Defnydd Gorau o Ddata Presennol a'i nod yw archwilio materion yn ymwneud ag ymarferoldeb sefydlu Astudiaeth Hydredol i Gymru. Astudiaethau Hydredol presennol y DU sydd wedi'u seilio ar y Cyfrifiad yw Astudiaeth Hydredol Cymru a Lloegr y Swyddfa Ystadegau Gwladol (sampl o 1% o'r boblogaeth), Astudiaeth Hydredol yr Alban (sampl o 5%) ac Astudiaeth Hydredol Gogledd Iwerddon (sampl o 28%). Er bod dyluniad, cynnwys a chwmpas yr astudiaethau hyn yn amrywio, cynnwys data'r Cyfrifiad sy'n hanfodol i'w pwysigrwydd fel adnodd ymchwil. Yn wahanol i weinyddiaethau datganoledig eraill yn y DU, nid oes gan Lywodraeth Cymru awdurdod cyfreithiol i gynnal y Cyfrifiad yng Nghymru, a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) sy'n gyfrifol am gynnal Cyfrifiad Cymru a Lloegr. Mae hyn yn creu rhwystr sylweddol rhag sefydlu Astudiaeth Hydredol i Gymru sy'n debyg i'r rhai a sefydlwyd yn y gwledydd datganoledig eraill. Mae diffyg adnodd o'r fath yn cyfyngu ar y gallu i gynnal ymchwil ynghylch poblogaeth Cymru mewn meysydd lle mae pwerau deddfu wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru.

### *Nodau'r Astudiaeth*

Roedd dau brif nod y prosiect hwn fel a ganlyn:

- Amlygu ac arfarnu'r dewisiadau ar gyfer creu 'colofn boblogaeth' 100% i hwyluso dadansoddi ar gyfer is-grwpiau poblogaeth manwl ac i fod yn sail ar gyfer cysylltu setiau data gweinyddol ac arolygon i Gymru, gan roi sylw arbennig i archwilio materion yn ymwneud â chynnwys data'r Cyfrifiad yn yr astudiaeth.
- Archwilio i ba raddau y gellir gwneud y defnydd gorau o setiau data arolygon cymdeithasol 'cyfoethocach' trwy ddefnyddio paru ystadegol neu ddulliau


Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

E·S·R·C ECONOMIC & SOCIAL RESEARCH COUNCIL

cyfrifo wedi'u seilio ar atchweliad i 'gyfuno' data arolygon dienw ôl-weithredol â'r 'golofn boblogaeth' er

Roedd y prosiect yn cynnwys adolygu llenyddiaeth, trafodaethau ag unigolion allweddol yn Asiantaethau Ystadegol y Llywodraeth a Seilweithiau Gweld Data, ynghyd â dadansoddiad archwiliadol o setiau data gweinyddol ac arolygon perthnasol. Mae'r prosiect hwn yn cysylltu'n agos â'r rhaglen Tu Hwnt I 2011 (Beyond 2011 - B2011) ONS a gwaith Tasglu Data Gweinyddol y DU. Gall argymhellion y Rhaglen B2011 gael effaith sylweddol ar dirwedd astudiaethau hydredol y Cyfrifiad yn y dyfodol a'r data sydd ar gael.

***Canfyddiadau Allweddol***

Mae gan gyfrifoldeb ONS dros gynnal y Cyfrifiad yng Nghymru a'u cyfrifoldebau i ymatebwyr y Cyfrifiad fel ceidwaid data Cyfrifiad Cymru oblygiadau ymarferol o ran ble a sut y gellid creu Astudiaeth Hydredol i Gymru. Hefyd, byddai gan faint sampl dymunol yr Astudiaeth Hydredol i Gymru, sef 100%, oblygiadau o ran derbynioldeb cyhoeddus a chynnal cyfrinachedd yr ymatebwyr. Er na fyddai'n ymarferol creu Astudiaeth Hydredol i Gymru wedi'i seilio 100% ar y Cyfrifiad, mae sawl opsiwn sy'n haeddu cael eu harchwilio ymhellach:

- Yn absenoldeb Astudiaeth Hydredol i Gymru 100%, gallai LlC gydweithio ag ONS i archwilio a oes dulliau'n bodoli i ddefnyddio Astudiaeth Hydredol Cymru a Lloegr yn well, gan gynnwys fel colofn i gysylltu data gweinyddol. Er na fyddai maint sampl Astudiaeth Hydredol ONS yn cefnogi dadansoddiad o Gymru ar gyfer is-grwpiau poblogaeth manwl, gallai prosiectau sy'n canolbwyntio ar gysylltu data gweinyddol ar gyfer grwpiau ehangach fod yn ddefnyddiol o ran amlygu potensial o ran ymchwil Astudiaeth Hydredol i Gymru wedi'i seilio ar y Cyfrifiad.
- Dylai LlC ystyried a fyddai'n ddymunol comisiynu ONS a'r Ganolfan Gwybodaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol i gynhyrchu Astudiaeth Hydredol i Gymru wedi'i seilio ar y Cyfrifiad, o faint digonol i gefnogi dadansoddiad o Gymru.
- Dylai LlC ystyried yr argymhellion a wnaed gan B2011 a Thasglu Data Gweinyddol y DU o ran gwneud y defnydd gorau o ddata gweinyddol fel colofn boblogaeth i lywio'r gwaith o ddatblygu cronfa ddata weinyddol amgen neu ategol nad yw wedi'i seilio ar y Cyfrifiad.
- Mae cronfeydd data gweinyddol yn dueddol o beidio â chynnwys data economaidd-gymdeithasol, fel strwythur yr aelwyd neu ddosbarth cymdeithasol. Mae'r problemau hyn yn creu her ymarferol a methodolegol sylweddol o ran cymhwyso paru

- Ar hyn o bryd, ceir ansicrwydd o ran yr argymhellion a wneir gan Raglen *Beyond 2011* ynghylch dyluniad y Cyfrifiad yn y dyfodol. Fodd bynnag, er mwyn gallu cyflwyno Astudiaeth Hydredol i Gymru wedi'i seilio ar y Cyfrifiad, byddai angen i Lywodraeth Cymru weld a allai ddefnyddio data'r Cyfrifiad dan y trefniadau yn y dyfodol, neu ystyried a hoffai gymryd cyfrifoldeb dros y Cyfrifiad yng Nghymru.

**Barn ymchwilwyr a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd barn Llywodraeth Cymru**


**Awdur:**

Rhys Davies

Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru, Cymrawd Ymchwil, Llywodraeth Cymru

**Cyswllt:**

Sarah Lowe

Ffôn: 029 2082 6229

Ebost: sarah.lowe@cymru.gsi.gov.uk



ISBN: 978-1-4734-0671-1



© Crown Copyright 2013